# <u>Cyngor Cymuned Llanystumdwy</u>,

**Rhaglen waith y Cyngor – nos Iau, Gorffennaf 3ydd, 2014 yn brydlon am 7-00 y.h. yn Ystafell Myrddin, Neuadd Goffa Chwilog.**

1a. Diwrnod galw heibio i drafod y Cynlluniau Tai yn Chwilog.
  b. Ymweliad a chyflwyniad gan Mr Arfon Huws, Hwylusydd Tai Gwledig, Tai Eryri.
2. Ymddiheuriadau.
3. Cyflwyno a chadarnhau cofnodion cyfarfod Mehefin 5ed, 2014.
4. Materion yn codi o'r cofnodion. Ar y rhaglen.
5. Datgan buddiant personol.
6. Cyngor Gwynedd.
  1. Priffyrdd a Bwrdeistrefol; Gwasanaeth Cynnal Priffyrdd a Bwrdeistrefol; Materion y Gymuned.
  2. Priffyrdd a Bwrdeistrefol;Gwasanaeth Rheoli Gwastraff a Strydoedd; Bin Baw Ci yn Llanystumdwy.
  3. Pennaeth Adran Rheoleiddio; Ymateb i lythyrau at y Gwasanaeth Cynllunio.
  4. Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd Gwynedd a Môn; Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd.
  5. Aelod Cabinet Cynllunio; CDLl ar y Cyd Gwynedd a Môn (2011 – 2026).
  6.Rheolwr Tim Gwelliannau, Traffig Rheolaeth Datblygu (dros dro); Llanystumdwy a Llannor(!)
7. Cyngor Gwynedd – Ceisiadau Cynllunio yn y Gymuned:
  1. Cais rhif C14/0481/41/LL – Codi estyniad deulawr ochr; 7 Cae Capel, Chwilog.
  2. Cais rhif C14/0515/41/LL – Gosod portacabin ar safle ar gyfer defnydd swyddfa annatodol i'r gweithdy cyfagos; Bro Mebyd, Chwilog.
  3. Cais rhif C14/0563/41/LL – Agor mynediad i'r briffordd a chreu lle parcio; 7 Glan y Wern, Chwilog.

8. Cymdeithas yr Iaith Gymraeg. Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn 2011 – 2026.
9. Llysiau'r Dial ar lwybr Afonwen ac ar dir y Cyngor wrth y bont yn Llanystumdwy.
10. **Materion yn y gymuned**.

<u>Rhoslan a'r Ynys</u>

1. Difrod i stanciau a gwair wedi cau gwter/gwli rhwng Fron Olau a Thy'n Weirglodd ar ôl gwaith barbio diweddar..
2. Angen barbio rhwng Llwyn yr Eryr a Rhos Ddu.
3. Dwy gwter wedi cau rhwng Rhos Ddu a Betws Bach.
4. Angen tocio coed drwy'r gymuned.

<u>Llanystumdwy</u>

1. Loriau mawr iawn yn methu mynd dros bont y pentref ac yn gorfod bagio'r holl ffordd i groeslon Tyddyn Sianel cyn parhau ar eu taith i'r Parc Bwyd/Amaeth.

<u>Chwilog</u>

1. Torri gwellt a. ym mynedfa stad Cae Capel.
   b. y llwybr o bont Pandy i Blas Ewig.
2. Angen torri coed o Ocean Heights i fynedfa Golchfa Afonwen.
3. Groeslon Penybryn.
4. Torri gwellt ar gylchfan Afonwen.

11. Ymgynghori Statudol ar ddyfodol ysgolion Addysg Anghenion Arbennig ym Meirionnydd a Dwyfor.

12. UHY Hacker Young, Cyfrifyddion Siartredig; Cymeradwyo'r Datganiad Blynyddol.
13. Adroddiad Blynyddol yr Ombwdsman 2013/14.       .
14. Materion heb gael ymateb iddynt.
15. Caniatad i'r Clerc dalu biliau yn ystod misoedd Gorffennaf ac Awst ar ôl ymgynghori gyda'r Cadeirydd/Is gadeirydd.
16. Caniatad i roi sylwadau ar geisiadau cynllunio ddaw yn ystod misoedd Gorffennaf ac Awst ar ôl ymgynghori gyda'r Cadeirydd/Is gadeirydd.
17.Derbyn a mabwysiadu'r polisiau a rheolau canlynol ar ôl iddynt gael eu golygu gan y cyfieithydd: Datganiad Polisi; Polisi Amgylcheddol; Polisi Cyfle Cyfartal; Polisi Iaith a Rheolau Sefydlog.

Gobeithio y gallaf anfon 'rhain atoch cyn cyfarfod nos Iau.

**Y Cyngor yn gaeedig i'r Cyhoedd ac i'r Wasg.**